MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 35
Rhagfyr 2006

CYNNWYS

Newyddion 2
Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd 4
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llês 5
Digwyddiadau a Hyfforddiant 6
Grantiau 7
Cymunedau'n Gyntaf 8

Ffair Wirfoddoli 2006

Gweler tudalen 4 am yr hanes ynghyd â mwy o luniau o'r diwrnod

Y Grwp Tasg a fu'n gyfrifol am y trefnu: O'r chwith - Iola Till, Ann Flemming, Ann Vaughan Jones, Sioned Larsen, Rhianon Jones ac Eleri Davies. Yn absenol o'r llun, Carys Williams, Gwynfor Ellis, Andrew Wilson a Jean Hughes.

Lansio 'EIN GWYNEDD NI' yn ystod Cyfarfod Blynyddol MANTELL GWYNEDD yn Nant Gwrtheyrn 31 Hydref, 2006

Trowch i dudalen 3 am yr hanes.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr!

Swyddfeydd Mantell Gwynedd
Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. ☎ 01286 672626 • 🖷: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. ☎ 01341 422575 • 🖷: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
ESF UK
YR UNDEB EWROPEAIDD Cronfa Cymdeithasol Ewrop AMCAN 1
EUROPEAN Social Fund OBJECTIVE 1
RHAN-ARIENNIR Y PROSIECT GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

Newyddion

Staff Canolfannau MANTELL GWYNEDD

CAERNARFON

Prif Swyddog: **Bethan Russell Owen**

TÎM GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol: **Meinir Jones**

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: **Carys Williams**

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Sioned Llwyd Larsen**

Swyddog Gwybodaeth: **Ann Vaughan Jones**

Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: **Delyth Vaughan**

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Rheolydd Cyllid a Gweithrediadau: **Ceren Williams**

Swyddog Gweinyddol: **Bronwen Rowlands**

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: **Tracy Lynne Roberts**

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Cydlynydd Gwirfoddolwyr: **Rhianon Jones**

Swyddog Gwirfoddoli: **Iola Till**

DOLGELLAU

TÎM GWASANAETHAU

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: **Mair Huws**

Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant: **Lindsey Ellis**

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: **Beryl Norgrove**

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Swyddog Gwirfoddoli: **Ann Angharad Fleming**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Dyma ddod at derfyn blwyddyn arall sydd wedi bod yn eithriadol o brysur a diddorol i ni yma yn Mantell. Ar ddiwedd blwyddyn fel hyn, mae'n amser i ddiolch i bawb am eu gwaith caled ac i edrych ymlaen am flwyddyn arall.

Yn fewnol ym Mantell, wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn, mae 'na dipyn o newid wedi bod ar ein staff. Ymunodd Delyth Vaughan fel Swyddog Grantiau a Chefnogaeth a dwi'n siwr fod llawer ohonoch wedi dod i gysylltiad â hi dros y misoedd diwethaf yn barod. Ymunodd Lindsey Ellis â ni hefyd i weithio fel Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant yn Nolgellau. Wrth gwrs mae Margaret Tüzüner wedi ein gadael (ond yn dal i ymuno a ni yn gymdeithasol!) ac Ann Jones wedi gadael o Ddolgellau. Mae 'di bod yn flwyddyn fach hapus iawn arnom ni fel staff ac 'rwy'n ymwybodol mor hynod lwcus ydw i yma ym Mantell yn cael Tîm mor ardderchog i gydweithio sydd yn cynnig pob cefnogaeth ac yn fwrlwm o frwdfrydedd bob amser. Ar ddiwedd blwyddyn, diolch i chi gyd am eich gwaith caled. Diolch i'r Bwrdd hefyd ac yn arbennig i'n Cadeirydd Jane am ei chefnogaeth cyson.

Mae 'na lawer o lwyddiannau positif wedi bod - cael llwyddiant gyda chais Cymunedau'n Gyntaf a chael dau benodiad o ganlyniad, llwyddo gyda chais am arian CFAP a medru comisiynu'r Gwaith Mapio fydd mor allweddol bwysig yn y dyfodol i ni. Mae'r rhain i gyd yn negeseuon positif ac mae darganfyddiadau'r gwaith mapio yn arf allweddol bwysig i ni wrth gynllunio ar gyfer sicrhau buddiannau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd dros y blynyddoedd nesaf. (Darllenwch ragor am y gwaith mapio ar dudalen 3).

Ar lefel strategol wleidyddol mae nifer o gamau'r Cynulliad Cenedlaethol er enghraifft 'Gwneud y Cysylltiadau' yn argoeli i gynnig cyfleoedd positif iawn i ni o fewn y Sector. Mae'r hinsawdd wleidyddol yn dda.

Mae camau positif yn digwydd rhwng y Sector a'r Cyngor - rydym yn y broses o adolygu'r Compact. Mae cyfle i'r sector gael mewnbwn ar Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac maent wedi cefnogi ein Gwaith Mapio yn ariannol ac y bersonol. Mae'r berthynas hon yn allweddol i'r dyfodol ac mae eleni wedi gweld camau cynhyrchiol i gryfhau'r berthynas i sicrhau cydweithredu iach yn y dyfodol.

Felly ar ddiwedd blwyddyn arall mae 'na lawer o negeseuon positif a chamau pwysig wedi eu gwneud y gellir adeiladu arnynt yn y dyfodol. Diolch i chi gyd, yn staff Mantell, Bwrdd Rheoli a phawb sydd wedi cydweithio efo ni a'n cefnogi dros y flwyddyn. Pob Bendith i chi gyd dros yr Ŵyl a gobeithio y cawn ni 2007 llawn llwyddiant.

Tan Tro Nesa,

Bethan Russell Owen

Cyngor ar-lein am roi mewn ffordd dreth-effeithiol i elusennau Cymru

O'r mis yma mae prosiect CGGC, Cymru'n Rhoi, yn mynd yn fyw ar y wê. Bydd yn galluogi Elusennau i lawrlwytho tudalennau gwybodaeth fel arweiniad i roi arian mewn ffordd dreth-effeithiol.

Bydd yn egluro sut y gall Elusennau Cymreig uchafu eu hincwm drwy ddull dreth effeithiol megis Rhodd Cymorth, rhoi trwy'r gyflogres, cymynrodd a rhoi cyfranddaliadau.

Gall elusennau ddarllen am sut i hyrwyddo a hawlio Rhodd Cymorth ar eu hincwm gan roddwyr, gan ychwanegu bron i 30 y cant.

Hefyd gwybodaeth am Roi Trwy'r Gyflogres Cymru, cynllun rhad ac am ddim CGGC, sy'n galluogi i weithwyr gyfrannu treth yn effeithiol i unrhyw elusen yn y DU trwy'r gyflogres fisol. Gall gweithwyr gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein i gefnogi hyd at dair elusen trwy roi drwy'r gyflogres, yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r adran rhoi mewn ffordd dreth effeithiol yn cynnwys cyngor a gwybodaeth ynghylch manteision treth rhoddion o nifer o wahanol ffynhonnellau. Ymwelwch â'r tudalennau 'Cymru'n Rhoi' ar adran wybodaeth gwefan CGGC - **www.cgcc.org.uk**.

Grŵp Cyswllt Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd

Yn fuan yn y flwyddyn newydd byddwn yn ethol cynrychiolwyr o'r newydd i fod yn cynrychioli'r sector ar y grŵp Cyswllt rhwng y Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd. Yn dilyn adolygiad o'r 'Compact' mae cyfle newydd yn codi i ddylanwadu ar bolisiau sy'n effeithio ar waith y sector. Bydd cynrychiolwyr, o bosib, yn cael cyfle i gymryd rhan mewn pwyllgorau craffu'r Cyngor ac i gynghori ar feysydd arbennig. Cysylltwch a Mantell Gwynedd i ddatgan eich diddordeb.

EIN GWYNEDD NI
MAPIO'R TRYDYDD SECTOR YNG NGWYNEDD

Mi ddaeth y Gwaith Mapio y bu hir aros amdano! Mae wedi bod yn brosiect go fawr ac i'r rhai ohonoch oedd yn ein Cyfarfod Blynyddol yn Nant Gwrtheyrn yn gwrando ar grynodeb o'r gwaith gan Llyr Huws Gruffudd o Menter a Busnes fe wyddoch fod hwn yn waith swmpus gyda llawer o negeseuon pwysig iawn i'r Trydydd Sector.

Mae'n waith sylweddol o safbwynt maint yn ogystal â phwysigrwydd ac nid yw'n bosib mynd ati i fanylu ar y gwaith yma ond dyma rai pwyntiau diddorol o'r Crynodeb Gweithredol:

1. **Mae cyflogaeth y Trydydd Sector yn cyfrif am o leiaf 2.2% o holl weithlu Gwynedd.**
2. **Mae cyfraniad economaidd y Trydydd Sector yng Ngwynedd yn nhermau cyflogaeth uniongyrchol yn £20,462,000 bob blwyddyn.**
3. **Mae o leiaf 23,000 o wirfoddolwyr yng Ngwynedd yn gwirfoddoli am 2.41 awr yr wythnos - sy'n cyfateb i 1,481 o swyddi llawn amser.**
4. **Mae'r Trydydd Sector yn gwario dros £20m yn flynyddol yn y sir ar brynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr lleol.**
5. **Mae'r Trydydd Sector wedi cynorthwyo 6% o'r holl boblogaeth economaidd anweithgar i symud o anweithgarwch economaidd.**
6. **Mae incwm blynyddol y Trydydd Sector yng Ngwynedd cyfwerth a dros £38m**
7. **Mae gan y Trydydd Sector yng Ngwynedd asedau gwerth dros £80m**

Mae'r darganfyddiadau o'r gwaith yma rwan yn gosod sail ardderchog i gynllunio ar gyfer gwell cefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Ngwynedd ac ar gyfnod pan mae'r hinsawdd ariannol (gyda newid arian Ewrop) yn her i ni. Mae'r Gwaith Mapio yn gyfle pwysig i ni adnabod yr agoriadau posib i ni, cynllunio'n ofalus ar gyfer gwell cynal-adwyedd tymor hir a gosod ein hunain mewn sefyllfa dda i ymateb i gyfleoedd megis 'Gwneud Y Cysylltiadau'.

Bydd Mantell Gwynedd yn gweithio'n galed dros y misoedd nesaf i ymateb i rai o'r darganfyddiadau yma a gweithio ar strwythurau a phrosiectau fydd yn cynnig cefnogaeth a mewnbwn i'r sector.

Mae copiau o'r gwaith ar gael yn ein swyddfeydd yng Nghaernarfon a Dolgellau, felly cysylltwch am gopi o'r gwaith neu fe allwn anfon fersiwn electroneg i chi.

CYSWLLT - Cymdeithas Plant Byddar

Yr adeg hon 12 mis yn ôl, roedd Cyswllt yn wynebu gorfod cau. Sefydlwyd yr elusen yn 1978 fel Cymdeithas Plant Byddar Gwynedd, sef grŵp oedd yn cynnig cymorth i rieni plant byddar. Roedd yr elusen yn ffynnu, a newidiwyd yr enw i Cyswllt yn y 1990au. Erbyn haf 2005, fodd bynnag, roedd y gefnogaeth ar ei lefel isaf ac roedd diffyg cyllid yn peri pryder. Roedd penderfyniad anodd iawn yn wynebu'r Ymddiriedolwyr - parhau ynteu gau?

Diswyddwyd y ddau aelod o staff rhan amser a chreuwyd un swydd rhan amser newydd â chyflog gwell, gyda'r bwriad o ymweld â chynifer o deuluoedd â phosibl dros gyfnod o chwe mis, er mwyn asesu'r angen am Cyswllt. Yn ffodus iawn, cytunodd noddwyr yr elusen, Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn a'r Byrddau Iechyd Lleol i'r 'newid cyfeiriad' dros dro tra 'roedd yr adolygiad yn mynd rhagddo.

Gwelwyd newidiadau mawr yn 2006. Casglwyd ynghyd dystiolaeth i gryfhau a gwella'r ceisiadau diweddar am gyllid, a bu'r ceisiadau am gyllid Cymorth gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn i greu swydd amser llawn yn llwyddiannus. Cychwynnodd y Gweithiwr Cymorth Teulu Arbenigol yn ei waith yn Ebrill.

Ar ôl blynyddoedd o orfod ymdopi mewn adeilad gwael, roedd yn bryd dod o hyd i safle newydd, i gyd-fynd ag 'adfywiad' Cyswllt, ac yn Ebrill, 2006, symudwyd i swyddfa newydd, fodern InTec ym Mharc Menai.

Mae Cyswllt mewn sefyllfa unigryw - yr unig sefydliad lleol yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n cynnig cymorth arbenigol, cyngor a gwybodaeth i blant â nam ar eu clyw ac i'w teuluoedd.

Os oes gan eich plentyn nam ar ei glyw, cysylltwch â Cyswllt am fwy o wybodaeth ar **01248 672624**

Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd

FFAIR WIRFODDOLI

I nodi 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' (sydd yn cael ei ddathlu ar y Sadwrn olaf mis Hydref yn flynyddol), penderfynodd Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd sefydlu Grwp Tasg i drefnu Ffair Wirfoddoli. Cynhaliwyd y Ffair yn adeilad Undeb y Myfyrwyr, Ffordd Deiniol, Bangor, dydd Mercher, 25ain o Hydref, rhwng 11.00yb a 5.00yp. Cafwyd croeso i Fangor gan Faer y Ddinas - y Cynghorydd Douglas Madge, ac agorwyd y Ffair yn swyddogol gan Mr Dafydd Wigley. Daeth 50 o fudiadau gwirfoddol i'r Ffair - oll yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i rannu gwybodaeth am eu gwaith, ac i ddenu gwirfoddolwyr newydd.

Cytunodd Russell Grant i wneud ymddangosiad arbennig am 2.00pm, ac yn ystod y dydd tynnwyd nifer o wobrau raffl. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn, a hoffai Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y Ffair mewn gwahanol ffyrdd.

Mr Dafydd Wigley, Mr a Mrs Douglas Madge a Bethan Russell Owen yn yr agoriad swyddogol.

Russell Grant a'i fam yn y Ffair Wirfoddoli.

Prysurdeb y Ffair...

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Bu staff Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd yn rhoi cyflwyniadau ar wirfoddoli mewn rhai o ysgolion uwchradd Gwynedd yn ystod mis Medi a Hydref. Mae diddordeb cynyddol ymysg pobl ifanc mewn gwirfoddoli, ac yn arbennig felly yng nghynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm - sef cynllun arbennig gyda'r nod o hyrwyddo a chydnabod gwirfoddoli gan bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Braf oedd cael cyfle i wobrwyo gwirfoddolwraig ifanc o Gaernarfon yn ystod Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd yn Nant Gwrtheyrn ar 31ain Hydref. Bu Catrin Carrington Rees yn gwirfoddoli yn swyddfa'r Groes Goch Brydeinig yng Nghaernarfon am dros 100 awr, a chyflwynwyd tystysgrif Gwirfoddolwr y Mileniwm iddi gan Jane Evans - Cadeirydd Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd .

GOFALWYR

Mae Coleg Menai yn cynnig cwrs 'Tystysgrif mewn Datblygiad Personol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl'.

Mae'r cwrs yma wedi ei anelu at oedolion sydd wedi bod, neu sydd ar hyn o bryd yn ofalwyr di-dâl.

Mae pwyslais y cwrs ar helpu i ddod o hyd i gyfleoedd realistig ym maes addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a hamdden ac ar wella cyswllt cymdeithasol gyda gofalwyr eraill mewn sefyllfa debyg.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
brenda.roberts@mail.menai.ac.uk neu ffoniwch: **01248 370125**

Fframwaith Triniaethau Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

Fframwaith Ymarfer da ar gyfer darpariaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ddigartref a phobl sydd â phroblemau llety.

Am gopi o'r ddogfen cysylltwch â Phil Guy ar: **01685 729098** neu **philip.guy@wales.gsi.gov.uk**

Anfonwch eich sylwadau ***cyn Dydd Gwener Ionawr 27, 2007*** *at Mr Phil Guy, Rheolwr Datblygu Polisi, Tîm Datblygu Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Cynulliad Cenedlaethol, Cymru, Rhydycar, Merthyr Tydfil - CF48 1UZ*

DOGFENNAU YMGYNGHORI CYFREDOL:

Cyfarwyddebau Comisiynu a Datblygu Gwasanaeth: Polisi a Chynllun Gweithredu ar gyflyrau Anadlol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau ar gyfer ailddylunio gofal ar gyfer cyflyrau cronig yng Nghymru fel yr amlinellir yn 'Cynllun Oes'.

Am gopi o'r ddogfen cysylltwch â **rick.thomas@wales.gsi.gov.uk** neu ffoniwch: **02920821756**

Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol hon at Rick Thomas, Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal a Gwasanaethau Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ **cyn Ionawr 12, 2007.**

Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru yn mynd ar lein!

A fuasech yn hoffi cyfnewid eich swydd mewn swyddfa am swydd yn yr awyr agored ond yn ansicr pa gymwysterau yr ydych eu hangen, neu efallai eich bod angen gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant neu swyddi yng Nghonwy, Ynys Môn neu Wynedd? Oes gennych chi fwriad i ymuno â chlwb cerdded, clwb nofio lleol neu unrhyw glwb awyr agored arall ond ddim yn siwr lle mae'r clwb agosaf?

Am wybodaeth eang o weithgareddau awyr agored yn eich ardal chi ewch ar wefan: ***www.partneriaethawyragored.co.uk***

SEMINAR

Autism Cymru

Elusen genedlaethol Cymru ar gyfer Awtistiaeth
Wales' National Charity for Autism

Deall a gweithio efo ASD
23 Ionawr 2007

Siaradwyr:
Bryan Craig ac Erica Gould

Lleoliad:
Theatr Gogledd Cymru, Llandudno

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Autism Cymru Conference Office,
64 Ffordd Casnewydd,
Caerdydd,
CF24 0DF

Ffôn: 02920 463263
Ffacs: 02920 463263

Gwefan:
www.autismcymru.org neu www.awares.org

CWNSELA AR GYFER TEULUOEDD
Gwasanaeth Newydd Relate Yng Ngogledd Cymru

Mae gwasanaeth newydd wedi ei lansio gan Relate yn ddiweddar sy'n cael ei anelu'n benodol at deuluoedd sy'n cael trafferth i reoli eu perthynas â'i gilydd. Gall Gwasanaeth Cwnsela Teulu Relate fod o help yn y sefyllfaoedd enghreifftiol canlynol:

- Rhieni/Gofalwyr a phlant/pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd siarad â'i gilydd
- Rhieni/Gofalwyr sy'n methu cytuno ar y ffordd orau o fagu eu plant.
- Plant/pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'u perthynas â'u teulu, cyfeillgarwch, problemau yn yr ysgol ayb.

Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim yng Ngogledd Cymru. Am fwy o wybodaeth ffoniwch: 01978 314763

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau/gwybodaeth uchod mae croeso i chi gysylltu â Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd ar: 01286 672626 neu sioned@mantellgwynedd.com

Digwyddiadau a Hyfforddiant

Hyfforddiant Mantell i ddod:

IONAWR 2007

17 Ionawr — **Iechyd a Diogelwch**
9.30yb - 4.00yp
Gwesty'r Celt, Caernarfon

24 Ionawr — **Deddf Gwahaniaethu ar Sail Oed - Ydych chi'n barod?**
9.00yb - 1.00yp
Oakeley Arms, Maentwrog

CHWEFROR 2007

7 Chwefror — **Sgiliau Cyflwyno**
10.00yb - 4.00yp
Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

13 Chwefror — **Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog**
6.00yh - 8.00yh
Gwesty'r Queens, Blaenau Ffestiniog

20 Chwefror — **Gwarchod Data a Chyfrinachedd**
9.30yb - 4.30yp
Royal Victoria, Llanberis

MAWRTH 2007

8 Mawrth — **Ysgrifennu Ceisiadau Ariannol**
10.00yb - 4.30yp
Gwesty'r Ship, Dolgellau

22 Mawrth — **Rheoli Amser a Blaenoriaethu**
10.00yb - 4.30yp
Canolfan Hamdden Porthmadog

Os hoffech fwy o fanylion am unrhyw un o'r digwyddiadau/hyfforddiant uchod neu os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant cysylltwch â:
Lindsey Ellis, Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant, Mantell Gwynedd,Yr Hen Orsaf Heddlu,Y Lawnt, Dolgellau LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
neu e-bost: lindsey@mantellgwynedd.co.uk

Hyfforddiant a Digwyddiadau CGGC

CHWEFROR 2007

8 Chwefror — **Ymgysylltu â grwpiau anodd i'w cyrraedd**
Bangor

Cwrs ar gyfer unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid neu unrhyw waith maes gyda grwpiau anodd i'w cyrraedd. Bydd y cwrs yn defnyddio dulliau cyfranogol a chynhwysol i ymgysylltu gyda'r materion sy'n gysylltiedig ag allgau a bod yn anodd i'ch cyrraedd.

CYFIEITHU AR Y PRYD

Cwrs 6 wythnos

Bob nos lau
Cychwyn 1af Chwefror, 2007
Plas Tan-y-bwlch

Cyfle i gael eich dysgu gan gyfieithwyr profiadol ac i ennill profiad allan yn y maes wedi hynny.

Cysylltwch ag:
anwen@cyfieithwyrcymru.org.uk
01248 371839

Cydnabyddir cymorth ariannol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Gwynedd

Gofal Mewn Galar CRUSE

Mae CRUSE Gofal Mewn Galar am redeg cwrs 48 awr i ddysgu sgiliau sylfaenol cynghori mewn galar yn cychwyn ar y 9ed o Ionawr 2007 yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Bydd y cwrs am ddim i rai sy'n dymuno gwirfoddoli â Cruse.

Rydym hefyd yn cynnal Noson Wybodaeth yn y Ganolfan Addysg rhwng 6.00yh - 8.00yh ac mae croeso cynnaes i chi ddod draw i drafod y cwrs uchod neu i gael gwybod mwy am waith Cruse yn gyffredinol. Am fwy o wybodaeth neu ffurflen gais, cysylltwch â Trish ar **08702 402758.**

Rhaglen Cleifion Arbenigol Cymru

Bydd cwrs nesaf o'r RCA yn cael ei gynnal yng nghanolfan y Geidiaid a'r Scowtiaid (tu cefn i'r llyfrgell), Tywyn.

Dydd Iau, 10.30yb tan 1.00yp (am 6 wythnos) ar y dyddiadau canlynol:

11/01/2007 • 18/01/2007 • 25/01/2007, 01/02/2007 • 08/02/2007 • 15/02/2007

Mae'r cwrs yn ymwneud a dysgu sgiliau:

- Rheoli symptomau
- Delio gyda straen, iselder a hunan-barch isel
- Datblygu sgiliau ymdopi
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol
- Rheoli Poen
- Bwyta'n iach a mwy...

Galluogi Gwynedd 2007/08

Gwahoddir ceisiadau nesaf hyd at **£5,000.00** i gronfa Galluogi Gwynedd erbyn **5.00y.p. ar ddydd Gwener, 29ain o Ragfyr, 2006**. Fe fydd y panel yn cyfarfod fis Chwefror 2007 lle byddant yn dyfarnu grantiau i geisiadau llwyddiannus o gyllideb 2007/08 y gronfa.

Am becyn cais neu i drafod unrhyw brosiect a fyddai'n gymwys cysylltwch â Delyth Vaughan ar: **01286 672 626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

Sefydliad Iechyd Barchester

Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau ar gyfer y buddiolwyr canlynol:

- Pobl Hŷn
- Oedolion gydag anabledd corfforol
- Oedolion gydag anabledd meddyliol

Mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar gefnogi oedolion dros 18 oed sy'n byw yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Am fwy o fanylion ewch i wefan: www.bhcfoundation.org.uk

Cronfa Gymunedol O2

Mae'r Cwmni ffônau symudol O2 wedi lawnsio cronfa gymunedol yn ddiweddarach eleni er mwyn galluogi pobl i wneud gwelliannau i'w cymunedau lleol. Gellir gwneud cais am hyd at **£1,000** i gefnogi prosiectau amgylcheddol a phrosiectau cadwraeth a fydd o fudd i gymunedau ehangach.

Gellir defnyddio'r cyllid i brynu neu logi offer neu i brynu planhigion ac ati. Dyma rai esiamplau o'r mathau o brosiectau y byddent yn ystyried eu hariannu: troi tir diffaith yn barc neu'n ardd; prosiect cadwraeth i warchod bywyd gwyllt lleol a chynyddu bio-amrywiaeth; plannu coed; creu pyllau i annog bywyd gwyllt; adnewyddu llwybrau ac afonydd sydd wedi eu hesgeuluso; gwella ôl-droed amgylcheddol neuaddau cymuned trwy osod paneli solar, pwyntiau casglu dŵr glaw a gosod cyfleusterau ailgychu; adnewyddu adeilad ar gyfer defnydd cymunedol.

Am fwy o fanylion a llawrlwytho ffurflen gais ewch i safle gwe: **http://www.02.com/cr/community_fund.asp**

'CHWARAE PLANT'

CRONFA LOTERI FAWR

Fel rhan o fenter 'Teuluoedd Iach' yng Nghymru gan y Loteri, lawnsiwyd cronfa newydd fis Hydref eleni sef 'Chwarae Plant'. O dan y fenter Teuluoedd Iach, maent yn ceisio hyrwyddo ffyrdd o fyw yn iach ac actif ymysg plant a theuluoedd, trwy gefnogi datblygiad mewn mannau a gweithgareddau chwarae newydd a chyffrous i blant ar draws Cymru. Gall mudiadau o'r sector wirfoddol a chymunedol a chyrff o'r sector gyhoeddus wneud cais am hyd at £1 miliwn dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer prosiectau fydd o bosibl yn gweithredu dros ardaloedd daearyddol eang. Mae cyfanswm o £13 miliwn ar gael yn y rhaglen.

Mae 'Chwarae Cymru' wedi derbyn cytundeb gan y Loteri i gynorthwyo grwpiau i ddatblygu ceisiadau ar gyfer y rhaglen yma. Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'r rownd gyntaf yw **4 Mai 2007**.

Am fanylion pellach ewch i wefan **www.cronfaloterifawr.org.uk** neu **www.chwaraecymru.org.uk**

GWOBRAU 'YOU CAN DO IT' B&Q

Mae gan y cwmni B&Q raglen gymunedol ers blynyddoedd bellach sy'n cynnig gwerth **£5,000.00** mewn deunyddiau ar gyfer prosiectau cymunedol trwy Brydain ac Iwerddon. Nod eu rhaglen gymunedol yw cynorthwyo cymunedau lleol i fod yn gynaladwy a chynhwysol er enghraifft rhoi bywyd newydd i ganolfan gymunedol, clwb ar ôl ysgol neu adnoddau i glwb chwaraeon. Mae'r gwobrau'n cael eu lansio bob mis Ionawr a gwobrwyir tua 20 prosiect yn flynyddol trwy Brydain ac Iwerddon.

RHAID I'R PROSIECTAU FOD WEDI EU LLEOLI O FEWN TUA 20 MILLTIR I'R STORFA AGOSAF.

Am fanylion pellach ar sut i ymgeisio ewch i:

www.diy.com

Cymunedau'n Gyntaf

Diwrnod Cyflwyno Cyfleon De Pwllheli

Mewn partneriaeth rhwng Mantell Gwynedd, Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli a Gyrfa Cymru, cynhaliwyd diwrnod 'Cyflwyno Cyfleon' sef, diwrnod gwybodaeth gyrfaol, hyfforddiant a gwaith yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli, dydd Gwener 17eg Tachwedd, 2006. Cefnogwyd y diwrnod gan nifer o asiantaethau sydd yn gweithio yn y maes hwn, sef:

Menter a Busnes, Llygad Busnes, Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Harlech, Gyrfa Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol, a diolch iddynt am eu cefnogaeth.

Gwan oedd yr ymateb i'r digwyddiad, ond diolch i bawb a fynychodd.

Cynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf

Ar yr 11eg a 12fed Hydref cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf yn Galeri, Caernarfon. Daeth cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru i'r cyfarfod a chynhaliwyd nifer o weithdai oedd yn ymwneud â gwaith yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Cafwyd cyflwyniad ar waith Cymunedau'n Gyntaf gan Mr Paul Dear o Gyfarwyddiaeth Cymunedau'n Gyntaf ynglyn â gwaith y rhaglen a datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Noson Tân Gwyllt

Am y tro cyntaf ers rhai blynyddol, cynhaliwyd noson Tân Gwyllt ar 'yr ynys' yn Ne Pwllheli. Gwnaethpwyd y trefniadau gan grŵp newydd Grŵp Heli gyda chefnogaeth swyddogion Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli. Derbyniwyd grant drwy Galluogi Gwynedd i rai aelodau o'r grŵp fynychu hyfforddiant penodol ar gyfer pobl yn trefnu'r math yma o ddigwyddiad. Balch yw adrodd y bu'r noson yn llwyddiant mawr a phawb yn edrych ymlaen at ddechrau cynllunio'r digwyddiad nesaf.

Gwraidd

A ydych chi'n grŵp neu a wyddoch chi am un a allai elwa ar arian a chefnogaeth y cynllun grant Gwraidd? Mae grantiau ar gael o hyd o dan y cynllun Gwraidd i gynorthwyo pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder er mwyn eu galluogi i chwarae rhan weithredol ym mywyd eu cymuned.

Mae cynllun Gwraidd Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig cymorth uniongyrchol ac ymarferol i grwpiau i ddatblygu eu syniadau, prosiectau a'u gweithgareddau, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n newydd ac yn parhau i ddatblygu ac nad ydynt o bosibl yn teimlo eu bod yn ddigon profiadol i wneud ceisiadau am grantiau. Mae hyd at **£3,000** ar gael i ymgeiswyr.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw **30 Rhagfyr 2006.**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **8ed Chwefror, 2007**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau:
beryl@mantellgwynedd.co.uk.
Ffôn: 01341 422575